# Pennod 1: Ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd


### Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86%) eu bod wedi clywed am y CSHB. Dywedodd dros hanner (55%) eu bod wedi clywed am y CSHB a'u bod yn gwybod llawer neu ychydig amdano, roedd 31% wedi clywed am y CSHB ond ddim yn gwybod llawer neu ddim byd amdano ac roedd 14% erioed wedi clywed am y CSHB (footnote 1).

## Ffigur 1. Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Gwlad | Wedi clywed am y CSHB | Erioed wedi clywed am y CSHB |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Lloegr | 86 | 14 |
| Cymru | 92 | 8 |
| Gogledd Iwerddon | 91 | 9 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn byw yn Lloegr (86%), Cymru (92%), a Gogledd Iwerddon (91%) wedi clywed am yr Cynllun Sgorio (Ffigur 1)**.


Roedd ymwybyddiaeth o’r CSHB a gwybodaeth amdano’n amrywio fesul gwlad. Roedd ymatebwyr yng Nghymru (69%) a Gogledd Iwerddon (65%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y CSHB na’r rheiny yn Lloegr (54%).

Roedd ymwybyddiaeth o’r CSHB a gwybodaeth amdano’n amrywio hefyd fesul rhanbarth yn Lloegr. Er enghraifft, dywedodd 62% o’r ymatebwyr yn Swydd Efrog a Humber a 61% o’r rheiny yn Nwyrain Canolbarth Lloegr fod ganddynt rywfaint o wybodaeth am y CSHB o gymharu â 44% yn Llundain.

## Ffigur 2. Ymwybyddiaeth o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a gwybodaeth amdano fesul gr?p oedran

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Oedran (blynyddoedd) | Wedi clywed am y CSHB ac yn meddu ar ychydig/tipyn o wybodaeth amdano | Wedi clywed am y CSHB ond ddim yn gwybod llawer/dim byd amdano | Erioed wedi clywed am y CSHB |
|---|---|---|---|
| 16-24 | 45 | 37 | 18 |
| 25-34 | 58 | 31 | 11 |
| 35-44 | 60 | 30 | 10 |
| 45-54 | 60 | 31 | 9 |
| 55-64 | 65 | 23 | 12 |
| 65-79 | 51 | 32 | 17 |
| 80+ | 33 | 36 | 31 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Roedd ymatebwyr rhwng 25 a 64 oed yn fwy tebygol o fod ag o leiaf ychydig yn fwy o wybodaeth am y CSHB na'r rheiny rhwng 16 a 24 oed neu'r rheiny sy'n 80 oed a throsodd. Er enghraifft, dywedodd 65% o'r ymatebwyr rhwng 55 a 64 oed eu bod yn gwybod am y CSHB, o gymharu â 33% o'r rheiny sy'n 80 oed a throsodd (Ffigur 2).


Roedd ymwybyddiaeth o'r CSHB, a gwybodaeth amdano, hefyd yn amrywio rhwng y grwpiau canlynol o bobl:

- **Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC):** roedd ymatebwyr o grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 60% o'r rheiny mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y CSHB na myfyrwyr amser llawn (42%) a'r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (31%).
- **Maint cartrefi:** roedd y rheiny mewn cartrefi o 3 pherson neu fwy (er enghraifft, 59% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi â 5 neu fwy o bobl) yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod am y CSHB o gymharu â'r rheiny mewn cartrefi 1 person (47%).
- **Cyfrifoldeb dros goginio:** roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (57%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y CSHB na'r rheiny nad ydyn nhw'n coginio (33%).
- **Cyfrifoldeb dros siopa:** roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am siopa am fwyd (57%) yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod am y CSHB na'r rheiny nad ydynt byth yn siopa am fwyd (34%).
- **Gr?p ethnig:** roedd ymatebwyr gwyn (57%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y CSHB nag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (43%).

## Ffigur 3. Lleoliadau lle'r oedd ymatebwyr wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Lleoliad | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Rhywle arall | 6 |
| Ar wefan arall | 3 |
| Ar ap arall | 5 |
| Hysbyseb neu erthygl mewn cylchgrawn | 7 |
| Ar y cyfryngau cymdeithasol | 9 |
| Yn y papur newyddion lleol | 9 |
| Ar wefan yr ASB | 14 |
| Wedi clywed gan rywun | 17 |
| Ar wefan neu ap archebu/dosbarthu bwyd | 23 |

| ?Lleoliad | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Ar wefan busnes bwyd | 38 |
| Sticer mewn busnes bwyd | 83 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oedd wedi clywed am y CSHB ymhle roedden nhw wedi dod ar ei draws. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd trwy weld sticer a oedd wedi’i arddangos mewn safle busnes bwyd (83%). Roedd bron i 4 o bob 10 (38%) o’r ymatebwyr wedi dod ar draws y CSHB ar wefan busnes bwyd, roedd 23% wedi dod ar ei draws ar wefan a/neu ap archebu/dosbarthu bwyd (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats), roedd 17% o’r ymatebwyr wedi clywed am y CSHB gan rywun, ac roedd 14% wedi dod ar ei draws ar wefan yr ASB (Ffigur 3) (footnote 2).

## Ffigur 4. Y 5 lle mwyaf amlwg lle’r oedd ymatebwyr wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Lleoliad | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|
| Ar wefan yr ASB | 14 | 19 | 15 |
| Wedi clywed gan rywun | 17 | 20 | 20 |
| Ar wefan neu ap archebu/dosbarthu bwyd | 23 | 24 | 16 |
| Ar wefan busnes bwyd | 38 | 36 | 32 |
| Sticer mewn busnes bwyd | 82 | 87 | 88 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yng Nghymru (87%), Lloegr (82%) a Gogledd Iwerddon (88%) wedi dod ar draws y CSHB trwy weld sticer ar safle busnes bwyd (Ffigur 4)**. Yr ail leoliad mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr wedi dod ar draws y CSHB oedd ar wefan busnes bwyd; yng Nghymru (36%), yn Lloegr (38%), ac yng Ngogledd Iwerddon (32%).


### Adnabyddiaeth o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Pan ddangoswyd llun o sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i’r ymatebwyr, dywedodd 87% ohonyn nhw eu bod nhw wedi gweld y sticer o’r blaen. Roedd adnabyddiaeth o’r sticer ychydig yn debyg yng Nghymru (91%), Lloegr (87%), a Gogledd Iwerddon (93%)** (footnote 3).

## Ffigur 5. Adnabyddiaeth o’r sticer sgôr hylendid bwyd fesul gr?p oedran.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Gr?p oedran | Wedi gweld y sticer o’r blaen | Erioed wedi gweld y sticer o’r blaen |
|---|---|---|
| 16-24 | 90 | 4 |
| 25-34 | 94 | 1 |
| 35-44 | 94 | 3 |
| 45-54 | 93 | 3 |

| ?Gr?poedran | Wedi gweld y sticer o’rblaen | Erioed wedi gweld y sticer o’rblaen |
|---|---|---|
| 55-64 | 87 | 9 |
| 65-79 | 79 | 15 |
| 80+ | 57 | 36 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Roedd yr ymatebwyr hynny o dan 55 oed yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na’r rheiny 80 oed a throsodd. Er enghraifft, dywedodd 94% o’r ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed eu bod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd o’u cymharu â 57% o’r ymatebwyr 80 oed a throsodd (Ffigur 5).


Roedd adnabyddiaeth o’r sticer sgôr hylendid bwyd hefyd yn amrywio rhwng y mathau canlynol o bobl:

- **Maint y cartref:** roedd yr ymatebwyr mewn cartrefi â 2 neu fwy o bobl (er enghraifft, 94% o’r rheiny mewn cartrefi â phedwar person) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na’r rheiny a oedd yn byw mewn cartrefi ag un person (76%).
- **Plant o dan 16 oed yn y cartref:** roedd yr ymatebwyr â phlant (o dan 16 oed) yn y cartref (95%) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na’r rheiny heb blant yn y cartref (84%).
- **NS-SEC:** roedd yr ymatebwyr mewn rhai grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 93% o’r rheiny mewn galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na’r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (75%).
- **Incwm blynyddol y cartref:** roedd yr ymatebwyr ag incwm dros £64,000 (er enghraifft, 94% o’r rheiny ag incwm rhwng £64,000 a £95,999) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd na’r rheiny ag incwm llai nag £19,000 (84%).

## Ffigur 6. Busnesau bwyd lle’r oedd yr ymatebwyr wedi gweld sticer sgôr hylendid bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Math o fusnes bwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Ar stondinau marchnad/bwyd stryd | 9 |
| Mewn siopau bwyd eraill | 13 |
| Mewn ysgolion neu sefydliadau eraill | 15 |
| Mewn archfarchnadoedd | 18 |
| Mewn gwestai/lletai gwely a brecwast | 29 |
| Mewn tafarndai | 53 |
| Mewn siopau coffi neu frechdanau | 55 |
| Mewn siopau tecawê | 69 |
| Mewn caffis | 75 |
| Mewn bwytai | 83 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ymhle roedden nhw wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr wedi gweld y sticer mewn bwytai (83%), mewn caffis (75%) neu mewn siopau tecawê (69%) (Ffigur 6) (footnote 4).

## Ffigur 7. Busnesau bwyd lle’r oedd yr ymatebwyr wedi gweld sticer sgôr hylendid bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Math o fusnes | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|
| Ar stondinau marchnad/bwyd stryd | 9 | 13 | 8 |
| Mewn siopau bwyd eraill | 12 | 20 | 13 |
| Mewn ysgolion a sefydliadau eraill | 14 | 24 | 21 |
| Mewn archfarchnadoedd | 17 | 25 | 18 |

| ?Math o fusnes | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|
| Mewn gwestai/lletai gwely a brecwast | 27 | 42 | 40 |
| Mewn tafarndai | 53 | 72 | 43 |
| Mewn siopau coffi neu frechdanau | 54 | 70 | 62 |
| Mewn siopau tecawê | 68 | 77 | 76 |
| Mewn caffis | 74 | 86 | 78 |
| Mewn bwytai | 83 | 88 | 82 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn bwytai yng Nghymru (88%), Lloegr (83%) a Gogledd Iwerddon (82%)**. Roedd ymatebwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn caffis (86%) a siopau coffi neu frechdanau (70%) o gymharu ag ymatebwyr yn Lloegr (caffis 74%, siopau coffi neu frechdanau 54%). Roedd ymatebwyr yng Nghymru (72%) yn fwy tebygol o fod wedi gweld y sticer sgôr hylendid bwyd mewn tafarndai na'r rheiny yng Ngogledd Iwerddon (43%) a Lloegr (53%) (Ffigur 7).

1. Cwestiwn: Ydych chi wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod cryn dipyn amdano; Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod ychydig amdano; Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod llawer amdano; Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod dim amdano; Nac ydw, dydw i erioed wedi clywed amdano. Sylfaen = 4918, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post. Sylwer: Cyfeirir at y rheiny a atebodd 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod cryn dipyn amdano', 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ac rydw i'n gwybod ychydig amdano', ac 'Ydw, rydw i wedi clywed amdano ond dydw i ddim yn gwybod llawer amdano' fel rhai a oedd yn gwybod am y CSHB.

2. Cwestiwn: Ble'r ydych chi wedi dod ar draws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Ar sticer mewn busnes bwyd; Ar wefan busnes bwyd (fel gwefan bwyty); Ar wefan neu ap archebu/dosbarth bwyd (fel Just Eat, Deliveroo, Uber Eats ac ati); Wedi clywed gan rywun; Ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd; Yn y papur newyddion lleol; Trwy'r cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft Twitter, Facebook Marketplace); Mewn hysbyseb neu erthygl cylchgrawn; Ar ap arall (er enghraifft Scores on the Doors) (nodwch); Ar wefan arall; Rhywle arall Sylfaen = 4444, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur

Bwyta Allan trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Sylwer: Nid yw'r canrannau a ddangosir yn rhoi cyfanswm o 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

3. Cwestiwn: Ydych chi erioed wedi gweld y sticer hwn o'r blaen? Ymatebion: Ydw; Nac ydw; Ddim yn gwybod / Ddim yn si?r. Sylfaen = 4918, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post.

4. Cwestiwn: Ym mha rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi gweld y sticer hwn yn ystod y 12 mis diwethaf? Ymatebion: Mewn bwytai; Mewn caffis; Mewn siopau tecawê; Mewn siopau coffi neu frechdanau; Mewn tafarndai; Mewn gwestai/llety gwely a brecwast; Mewn archfarchnadoedd; Mewn ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill; Ar stondinau marchnad/bwyd stryd; Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig); Mewn siopau bwyd eraill; Rhywle arall; Dydw i ddim wedi gweld y sticer hwn mewn busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Sylfaen = 4457, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi gweld sticer y CSHB.